

Fy enw i yw Brian ac roeddwn i'n un o gasglwyr y cyfrifiad yng Nghyfrifiad 2011.

Rôl casglwr y cyfrifiad oedd mynd ar ôl pobl oedd heb lenwi ffurflen y cyfrifiad. Y rheswm roedd rhaid i ni fynd yn ôl weithiau a helpu unigolion i lenwi ffurflenni oedd bod rhai pobl, rwy'n credu, ddim yn ddigon llythrennog o bosibl neu efallai doedden nhw ddim yn gallu ysgrifennu, neu mewn rhai achosion roedden ni'n delio â phobl o gefndiroedd eraill a doedden nhw ddim yn deall y ffurflenni neu doedd eu Saesneg ddim yn ddigon da i allu ateb y ffurflenni felly roedd angen rhywun i'w helpu nhw i ddehongli hynny ac yna dehongli eu hatebion i'w rhoi nhw ar y ffurflen.

Yn y broses, y bobl unigol sy'n bwysig ac roedd eu helpu nhw i lenwi'r ffurflenni yn rhoi llawer o foddhad ond roedd hefyd yn ddiddorol iawn siarad â'r bobl hynny a gofyn y rhan fwyaf o'r cwestiynau'n gyffredinol a byddech chi'n cael ychydig yn fwy o wybodaeth ychwanegol ganddyn nhw hefyd.

Felly a dweud y gwir roedd yn ddiddorol siarad â nhw a rhyngweithio â nhw. Roedd yn gyfleus iawn a dweud y gwir (chwerthin) oherwydd roeddwn i newydd ymddeol yn gynnar ac fe wnes i orffen.

Roedd yr amseru'n berffaith.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn weddol barod i ymateb i chi a'r math yna o beth.

Roedd yna ambell un oedd wir ddim eisiau ei lenwi neu'n teimlo ei fod braidd yn fusneslyd a'r math yna o beth, felly roedd angen eu hannog nhw i oresgyn hynny ac yna llenwi'r ffurflen.

O ran hyfforddiant, ar ôl i ni gael ein dewis, fe gawson ni ein rhoi mewn timau, yn amlwg. Wedyn cysylltodd arweinydd y tîm â ni i drefnu ein bod ni i gyd yn cwrdd mewn lle penodol roedd e wedi'i drefnu. Ac fe roddodd yr holl offer i ni y byddai angen i ni eu defnyddio a'r ffurflenni a beth bynnag arall roedd angen i ni ei gael. Fe gawson ni dargedau ac ardaloedd.

Fe gawson ni ein rhannu i ardaloedd lle roedd rhaid i ni weithio ar hyn a hyn o strydoedd.

Ac yna bydden ni'n mynd o gwmpas ac yn curo ar ddrysau ac yn casglu'r ffurflenni, os oedd y bobl wedi eu llenwi nhw ond heb eu hanfon yn ôl neu beth bynnag, ac yna bydden ni'n mynd â nhw'n ôl i arweinydd y tîm

Yna, yn amlwg, byddai pobl, ar yr adeg honno, weithiau'n llenwi'r ffurflenni ar lein ac yna ar ôl ychydig ddyddiau bydden ni'n cael rhestr newydd o gyfeiriadau oedd yn dal i fod heb lenwi'r ffurflen.

Felly bydden ni'n mynd yn ôl i'r cyfeiriadau oedd heb lenwi'r ffurflen. Ond fydden ni ddim yn galw eto yn y cyfeiriadau oedd wedi ei llenwi. Roedd yn hyblyg iawn a dweud y gwir oherwydd byddwn i'n gallu addasu pethau a ffitio'r gwaith i mewn oherwydd yr hyblygrwydd.

Petai angen i fi bicio i rywle, byddwn i'n gallu gwneud hynny ac yna dod yn fy ôl a chario ymlaen â'r rownd. Oedd, roedd e'n hyblyg iawn ac yn gallu ffitio o amgylch bywyd felly doedd e ddim yn feichus o gwbl.

Os ydych chi'n gwyllo hwn ac yn ystyried gweithio ar y cyfrifiad, byddwn i'n ei argymhell yn bersonol oherwydd fe gefais i brofiad da iawn.

Roedd e'n ddiddorol, rydych chi'n delio â phobl. O'r gorau, mae angen i chi fod yn barod i wneud tipyn o gerdded ond mae'n eich cadw chi'n heini, sy'n beth da. Ac yn ystod Cyfrifiad 2011, fe gawson ni'r cyfnod gorau o dywydd braf a gawson ni erioed. Ac roeddwn i'n cerdded o gwmpas yn llewys fy nghrys drwy'r amser.

Roeddwn i'n falch, oherwydd roeddwn i'n teimlo fy mod i'n gwneud rhywbeth nid yn unig er mwyn helpu i gasglu gwybodaeth i'r llywodraeth neu SYG, ond roeddwn i'n helpu pobl i fynd drwy'r broses hefyd.